RSPCA CYMRU ANIMAL WELFARE The Great Debate

GENERATION KIND

YOUR TEAM IS GOING TO RESEARCH

Animals in housing

and speak **for and against** landlords allowing pets in homes

This brief has been produced as part of the *RSPCA's Animal Welfare: The Great Debate* and is a starting point for the research you will need to do into the subject in order to ensure a successful debate. The points for or against a subject may not be RSPCA policy and represent some of the wider thinking around the subject.

- In Wales 47 percent of homes have at least one pet and around 29 percent of people live in privately or socially rented accommodation..
- When living in rented accommodation, tenants have to abide by the rules set by their landlord and in many cases the landlord does not allow them to have pets.
- Many homes owned by local councils and housing associations have pets policies as part of the tenancy agreement to allow their tenants to have pets.

FOR

Here are some points **in favour of** allowing pets in homes – what other points can you find?

- Tenants with pets tend to stay twice as long in a property compared to other renters.
- Having a pets policy makes it clear to the landlord and the tenant what is expected of them.
- Pets policies can help to improve animal welfare.

AGAINST

Here are some reasons why pets **shouldn't be** allowed – can you find any more?

- If a pet causes damage, the landlord will end up paying for repairs and losing money on their investment.
- Not all animals are suitable to be kept as pets in certain types of accommodation.
- Landlords should be able to decide what happens in their properties.

Information you may want to find out

- Does your local council or housing association have a pets policy – what does it say?
- Why do people rent homes and why do people buy homes to rent out? What would be the impact on the landlord by allowing pets in their property?
- Are there any positive or negative impacts on animals being in rented accommodation? And is there an award scheme that recognises housing associations that have pets policies?

Potential sources of information

- RSPCA website: **www.rspca.cymru**
- Political Animal website: **www.politicalanimal.wales**
- RSPCA facts and figures: **http://media.rspca.org.uk/media/facts**
- Residential Landlord Association: **www.rla.org.uk**

RSPCA CYMRU ANIMAL WELFARE
The Great Debate

GENERATION KIND

MAE EICH TÎM YN MYND I YMCHWILIO I

Anifeiliaid mewn tai

a siarad **o blaid ac yn erbyn** landlordiaid yn caniatáu anifeiliaid anwes mewn cartrefi

Mae'r briff hwn wedi'i lunio fel rhan o *Ddadl Fawr yr RSPCA: Lles Anifeiliaid* ac mae'n fan cychwyn i'r ymchwil y bydd angen i chi ei wneud i'r pwnc er mwyn cael dadl lwyddiannus. Mae'n bosibl na fydd rhai pwyntiau o blaid neu yn erbyn pwnc yn bolisi gan yr RSPCA, a'r pwyntiau yn cynrychioli peth o'r meddylfryd ehangach am y pwnc.

- Yng Nghymru mae gan 47 y cant o gartrefi o leiaf un anifail anwes ac mae tua 29 y cant o bobl yn byw mewn cartref sydd wedi'i rentu'n breifat neu gan gymdeithas dai.
- Wrth fyw mewn llety rhent, rhaid i denantiaid gydymffurfio â'r rheolau a osodir gan eu landlord – ac mewn nifer o achosion nid yw'r landlord yn caniatáu iddynt gael anifeiliaid anwes.
- Mae llawer o gartrefi sy'n eiddo i gynghorau lleol a chymdeithasau tai yn meddu ar bolisïau anifeiliaid anwes fel rhan o'r cytundeb tenantiaeth a hynny'n gadael i denantiaid gael anifeiliaid anwes.

O BLAID

Dyma rai pwyntiau **o blaid** caniatáu anifeiliaid anwes mewn cartrefi – pa bwyntiau eraill allwch chi eu canfod?

- Mae tenantiaid sydd ag anifeiliaid anwes yn tueddu i aros ddwywaith yn hirach mewn eiddo o'i gymharu â rhentwyr eraill.
- Mae cael polisi anifeiliaid anwes yn ei gwneud yn glir i'r landlord a'r tenant beth a ddisgwylir ganddynt.
- Mae polisïau anifeiliaid anwes yn gallu helpu i wella lles anifeiliaid.

YN ERBYN

Dyma rai rhesymau pam **na ddylid** caniatáu anifeiliaid anwes – ydych chi'n gallu canfod rhagor?

- Os bydd anifail anwes yn achosi difrod, y landlord fydd yn talu am atgyweiriadau ac yn colli arian ar eu buddsoddiad.
- Nid yw pob anifail yn addas i'w gadw fel anifail anwes mewn rhai mathau o lety.
- Landlordiaid ddylai benderfynu beth sy'n digwydd yn eu heiddo.

Gwybodaeth y byddech o bosibl am chwilio amdani

- A oes gan eich cyngor neu eich cymdeithas dai leol bolisi anifeiliaid anwes? Beth mae'n ei ddweud?
- Pam fod pobl yn rhentu cartrefi a pham fod pobl yn prynu cartrefi i'w rhentu? Beth fyddai'r effaith ar y landlord o ganiatáu anifeiliaid anwes yn eu heiddo?
- A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar anifeiliaid sydd mewn llety rhent? Ac a oes cynllun gwobrwyo sy'n cydnabod cymdeithasau tai sydd â pholisïau anifeiliaid anwes?

Ffynonellau posibl i gael gwybodaeth

- Gwefan yr RSPCA: **www.rspca.cymru**
- Gwefan Political Animal: **www.politicalanimal.wales**
- Ffeithiau a ffigyrau'r RSPCA: **http://media.rspca.org.uk/media/facts**
- Cymdeithas Landlordiaid Preswyl: **www.rla.org.uk**